Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Polisi a Threfniadau Iechyd a Diogelwch

Diwygiwyd Awst 2013

Dalen wybodaeth

Blwch gwybodaeth

Am ragor o gyngor, cysylltwch â'r: Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2013
Dyddiad adolygu arfaethedig: Awst 2016

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r polisi hwn at:

Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at gina.carrington@estyn.gov.uk
Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

- Cynhaliwyd asesiad rhesymwaith busnes ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion cyflenwi Estyn.

- Cynhaliwyd asesiad effaith ar gydraddoldeb ac ni thybir bod y polisi hwn yn cael effaith andwyol ar unrhyw un ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Fframwaith Deddfwriaethol 1
Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 1
Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 1
Rheoliadau Iechyd, Diogelwch a Lles yn y Gweithle 1992 1

Cwmpas y polisi **2**

Nod y polisi 2
Cyfrifoldebau 2
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi 2
Bwrdd Strategaeth Estyn 2
Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles 3
Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch 4
Prif Swyddog Polisi Corfforaethol ar gyfer Iechyd, diogelwch a lles 4
Gweithwyr 5
Rheolwyr llinell 6
Arolygwyr cofnodol 7
Atebolrwydd am dorri dyletswydd statudol 7

Rheoli risgiau iechyd a diogelwch **8**

Rheoli'r risgiau sy'n ymwneud â gweithleoedd 8
Rheoli'r risgiau sy'n ymwneud â gwaith arolygu 8
Rheoli'r risgiau sy'n ymwneud â gyrru fel rhan o'r gwaith 8
Rheoli'r risgiau sy'n ymwneud â gweithio ar eich pen eich hun 9
Rheoli'r risg o straen sy'n ymwneud â'r gwaith 9
Rheoli'r risg o anhwylderau cyhyrsgerbydol 9
Lleihau'r risg sy'n ymwneud â gweithio gydag offer sgrin arddangos (OSA) 9
Rheoli risgiau codi a chario 10
Rheoli risgiau sylweddau peryglus 10
Rheoli'r risgiau o weithio gydag offer trydanol 10
Camau rheoli: Offer Diogelu Personol 10
Camau rheoli: Hyfforddiant 11

Hyrwyddo iechyd gweithwyr **12**

Hyrwyddo iechyd a lles 12
Cymorth cyntaf 12
Damweiniau a chofnodi 12
Cael anaf wrth wneud eich gwaith 13
Cofnodi anafiadau, afiechydon a digwyddiadau peryglus (RIDDOR) 13
Gweithdrefnau argyfwng: Tân a gwacáu 13

Ymgynghori â gweithwyr **14**

Monitro ac adolygu **15**

Atodiadau

1 Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch Estyn 16
2 Strwythur Rheoli Iechyd a Diogelwch Estyn 17
3 Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch Estyn - personél dynodedig 18

Ffurflen cytuno ar bolisi **20**

Cyflwyniad

Fframwaith Deddfwriaethol

Mae'n ddyletswydd ar Estyn i sicrhau iechyd, diogelwch a lles ei holl weithwyr yn y gwaith, cyn belled â bod hynny'n rhesymol ymarferol, ac mae wedi ei rwymo gan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, is-reoliadau a deddfwriaeth iechyd a diogelwch arall. Mae'r prif feysydd deddfwriaeth sy'n berthnasol i waith Estyn wedi'u nodi isod. Fe gyfeirir at ragor o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i feysydd gwaith penodol o dan adrannau penodol o'r ddogfen hon.

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yw'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch galwedigaethol. Mae'n nodi'r dyletswyddau cyffredinol sydd gan gyflogwyr tuag at weithwyr a'r cyhoedd yn ogystal â dyletswyddau gweithwyr at eu hunain a'i gilydd. Mae dyletswyddau'r cyflogwr yn cynnwys:

i pennu trefniadau er mwyn sicrhau amgylchedd gwaith diogel ac iach, a rheoli'r risgiau cyn belled â bod hynny'n rhesymol ymarferol;
ii darparu gweithle a systemau gwaith diogel;
iii paratoi datganiad ysgrifenedig am iechyd a diogelwch sy'n cael ei lofnodi gan yr uwch reolwyr ac sy'n cael ei ddwyn i sylw'r gweithwyr;
iv rhoi gwybodaeth berthnasol, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth i'r gweithwyr yn ôl yr angen; a
v rheoli'r risgiau i iechyd a diogelwch y rhai nad ydynt yn weithwyr a allai gael eu heffeithio gan eu gweithgareddau.

Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999

Mae Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn egluro beth ddylai gweithwyr ei wneud i fodloni eu hymrwymiadau iechyd a diogelwch. Cynnal asesiadau risg 'addas a digonol' yw'r prif ofyniad, yn ogystal â chofnodi'r canfyddiadau arwyddocaol, os oes o leiaf 5 o weithwyr.

Rheoliadau Iechyd, Diogelwch a Lles yn y Gweithle 1992

Mae'r rheoliadau yn rhoi dyletswydd ar gyflogwyr i ddarparu gweithle sy'n ddigonol o ran lle, golau, tymheredd, awyru, safonau glendid, ffyrdd diogel a digonol o deithio i gerddwyr neu gerbydau, cyfleusterau tŷ bach/ymolchi digonol, dŵr yfed, mannau gorffwys a mannau gweithiau/eistedd addas. Bydd Estyn yn darparu amgylchedd diogel ac iach i bob gweithiwr, contractwyr sy'n gweithio yn ei swyddfeydd yn ogystal ag ymwelwyr sy'n ymweld â'u swyddfeydd, gan gynnwys pobl ag anableddau ac unrhyw un sy'n cael ei adnabod fel rhywun sy'n arbennig o agored i niwed, er enghraifft pobl ifanc a merched beichiog.

Cwmpas y polisi

Nod y polisi

Mae'r polisi hwn yn nodi sut mae Estyn yn bodloni ei brif ddyletswyddau o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a'r trefniadau penodol sydd wedi'u sefydlu i reoli iechyd (h.y. lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol) a diogelwch (h.y. rhyddid rhag risg annerbyniol o niwed). Mae Atodiad 1 yn cynnwys datganiad ysgrifenedig am iechyd a diogelwch a lofnodwyd gan y Prif Arolygydd ac sy'n cael ei arddangos yn swyddfa Estyn. Mae'n nodi prif nodau ac egwyddorion arweiniol Estyn o ran iechyd a diogelwch ac mae'n berthnasol i'r holl staff, ymwelwyr a chontractwyr yn swyddfeydd Estyn.

Mae'r trefniadau a nodir yn y ddogfen hon yn berthnasol ar gyfer pob gweithiwr parhaol, secondiaid a staff dros dro sy'n gweithio i Estyn pan maent yn gweithio yn swyddfeydd Estyn neu oddi ar y safle. At ddibenion y ddogfen hon, bydd y term 'staff' yn cyfeirio at weithwyr parhaol, secondeion a staff asiantaeth dros dro.

Mae contractwyr sy'n gweithio ar ran Estyn i ffwrdd o'r safle o dan gontractau neu drefniadau eraill yn rhwym dan y polisi hwn ac unrhyw ofynion iechyd a diogelwch ychwanegol a bennwyd yn y contract neu'r amodau penodol yn ymwneud â'u gwaith gydag Estyn neu i Estyn.

Paratowyd polisïau a gweithdrefnau ar wahân o ran meysydd gwaith ac arferion penodol (er enghraifft, gyrru, gweithio ar eich pen eich hun a gweithio gartref) ac fe gyfeirir atynt yn y polisi hwn. Bydd rhagor o bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu paratoi yn ôl yr angen i gyd-fynd â'r newidiadau mewn deddfwriaeth ac yn strwythur a gofynion gweithredol Estyn.

Cyfrifoldebau

Mae Atodiad 2 yn cynnwys siart manwl sy'n dangos y strwythur, y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch yn Estyn.

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi

Y Prif Arolygydd sydd yn bennaf gyfrifol am iechyd, lles a diogelwch yn Estyn, er bod gan yr holl staff gyfrifoldebau o ran cynorthwyo i reoli a hyrwyddo safonau uchel ym maes iechyd a diogelwch yn y modd y maent yn gwneud eu gwaith a'r ffordd y maent yn rheoli ac yn rhyngweithio â staff eraill. Un o Gyfarwyddwyr Strategol Estyn sy'n gweithredu fel Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch sy'n gyfrifol am oruchwylio iechyd, lles a diogelwch o ddydd i ddydd.

Bwrdd Strategaeth Estyn

Mae gan aelodau o fwrdd Estyn gyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch fel unigolion ac ar y cyd, gan gynnwys:

- cynorthwyo'r Prif Arolygydd i sicrhau bod cyfrifoldebau iechyd a diogelwch Estyn yn cael eu cyflawni'n gywir;
- rhoi arweiniad a phennu cyfeiriad a safonau ar gyfer iechyd, lles a diogelwch;
- monitro ac adolygu perfformiad iechyd a diogelwch Estyn yn ogystal â'r systemau a'r strwythurau rheoli er mwyn sicrhau gwelliant parhaus;
- hyrwyddo lles y gweithwyr;
- cael gafael ar gyngor cymwys ynglŷn ag iechyd a diogelwch;
- sicrhau bod adnoddau digonol ar gael er mwyn sicrhau cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch statudol (gan ystyried y cosbau a roddir am beidio â chydymffurfio a gyflwynwyd yn Neddf Troseddau Iechyd a Diogelwch 2008) ac i amddiffyn iechyd a diogelwch gweithwyr ac eraill sy'n cael eu heffeithio gan ein gwaith;
- sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cynnal;
- ymgysylltu â staff wrth hyrwyddo amodau ac arferion gwaith diogel ac iach;
- sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal o effeithiolrwydd strwythurau rheoli a'r camau rheoli risg ar gyfer iechyd a diogelwch; ac
- adolygu hyn a pholisïau eraill cysylltiedig.

Mae un o aelodau anweithredol Bwrdd Estyn wedi'i ddynodi'n Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch ac mae ganddo/ganddi gyfrifoldeb penodol dros:

- ystyried lefel gallu'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles er mwyn ei alluogi i fodloni ymrwymiad Estyn i iechyd a diogelwch fel y'i nodir yn y polisi hwn;
- adolygu a monitro gwaith y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles er mwyn sicrhau bod y camau y cytunwyd arnynt yn mynd rhagddynt;
- yn ôl yr angen, ystyried adroddiadau penodol gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles cyn i Fwrdd Estyn eu hystyried; a
- hyrwyddo lles y gweithwyr ac ymgorffori egwyddorion y Safon Iechyd Corfforaethol yn niwylliant a phrosesau sefydliadol Estyn.

Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles

Mae swyddogaeth ac aelodaeth Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Estyn wedi'u nodi yn y Cylch Gorchwyl sydd ar gael ar Sharepoint. Mae'r Pwyllgor yn rhoi cyngor i'r Prif Arolygydd, Pwyllgor Gweithredol Estyn a'r Byrddau Strategol am bopeth sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch. Mae ganddo swyddogaeth allweddol o ran hyrwyddo lles y gweithwyr ac ymgorffori hynny ym mhrosesau Estyn. Mae'n rhoi ffocws ar gyfer galluogi gweithwyr i gymryd rhan yn ogystal â chydweithrediad rhwng y cyflogwr a'r gweithwyr mewn meysydd iechyd a diogelwch. Mae cynrychiolwyr o'r

ddau undeb llafur y mae Estyn yn eu cydnabod yn aelodau ohono, a hefyd mae aelodau sydd heb gysylltiad ag undebau llafur.

Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch

Mae Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch Estyn yn aelod o'r Bwrdd Gweithredol ac mae'n gyfrifol yn benodol am:

- weithio gydag eraill i baratoi a gweithredu polisi a gweithdrefnau iechyd a diogelwch Estyn;
- rhoi arweiniad i'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles;
- hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles ym mhrosesau sefydliadol a rheoli Estyn;
- cadw llygad ar ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol; a
- sicrhau bod cyngor cymwys yn cael ei roi i Fwrdd Gweithredol a Bwrdd Strategol Estyn am faterion iechyd a diogelwch.

Prif Swyddog Polisi Corfforaethol ar gyfer Iechyd a Diogelwch

Mae'r Prif Swyddog Polisi Corfforaethol ar gyfer Iechyd, Diogelwch a Lles yn rhoi arweiniad a chyngor ar faterion iechyd a diogelwch ac mae'n gyfrifol am:

- darparu cyngor am bolisïau i staff Estyn ar faterion iechyd a diogelwch;
- cydweithio â swyddogion LICC ar bolisïau iechyd a diogelwch cenedlaethol;
- darparu gwybodaeth ac arbenigedd am iechyd a diogelwch;
- sicrhau bod Estyn yn cydymffurfio ag ymrwymiadau iechyd a diogelwch;
- cofnodi perfformiad Estyn ym maes iechyd a diogelwch, gan gynnwys ar gyfer fforymau undebau llafur Estyn; a
- defnyddio system rheoli cofnodion SharePoint, gan gynnal crynodeb parhaus o statws yn ogystal â gwerthusiad ar ddiwedd y flwyddyn o faterion perthnasol;
- gadw llygad ar ddeddfwriaeth ac arfer orau ym maes iechyd a diogelwch;
- rhoi cyngor ac arweiniad i staff ar bob lefel ac i'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles ynghylch cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch statudol ac arfer orau;
- gweithio gyda'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles i baratoi polisïau ac arweiniad ac i fynd i'r afael â chamau a gytunwyd gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles;

- ymchwilio i ddamweiniau a digwyddiadau bu ond y dim iddynt ddigwydd, a pharatoi adroddiadau rheolaidd ar gyfer y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles a'r rheolwyr yn ôl yr angen, yn ogystal â bod yn fan cofnodi i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar gyfer damweiniau a digwyddiadau sy'n ymwneud â'r gwaith (o dan Reoliadau Cofnodi Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus);

- cynorthwyo rheolwyr llinell gydag asesu risg, rhoi cyngor ar reoli risg ac ymchwilio i ddamweiniau;

- rhoi cyngor ar ergonomeg a sut y dylai pobl eistedd, trefnu asesiadau o safleoedd gwaith gan staff sydd wedi derbyn hyfforddiant addas a / neu monitro hunanasesiadau staff;

- gwneud trefniadau fel bod offer diogelu personol yn cael ei ddarparu ar gyfer staff er mwyn bodloni anghenion a nodwyd;

- trefnu sgriniau iechyd galwedigaethol yn ôl yr angen ar gyfer staff;

- darparu gwybodaeth ac arweiniad am weithgareddau priodol sy'n hyrwyddo iechyd a lles;

- datblygu mentrau a datblygiadau sy'n ymwneud â'r Safon Iechyd Corfforaethol sy'n ceisio gwella lles y gweithwyr;

- trefnu hyfforddiant am ddiogelwch a monitro amgylchedd y gweithle; a

- chynghori rheolwyr Estyn am geisiadau yn dilyn anafiadau personol yn ôl yr angen.

Gweithwyr

Mae gan reolwyr llinell a staff unigol gyfrifoldebau hefyd dros iechyd a diogelwch ac maent yn derbyn cyfarwyddyd am y rhain yn ogystal â'r ymrwymiadau a'r gweithdrefnau yn y polisi iechyd a diogelwch fel rhan o'u cyfnod sefydlu yn Estyn. Dyma rai o gyfrifoldebau'r gweithwyr yn unol â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch:

- cymryd gofal rhesymol am eu diogelwch eu hunain a diogelwch pobl eraill a allai gael eu heffeithio gan yr hyn y mae'r gweithwyr yn ei wneud neu ddim yn ei wneud;

- cydweithio â'u cyflogwr i fodloni gofynion y ddeddf iechyd a diogelwch a'r trefniadau fel y nodwyd yn y polisi iechyd a diogelwch ac mewn polisïau eraill;

- peidio ag ymyrryd ag, neu gamddefnyddio offer a ddarperir ar gyfer y gwaith, gan gynnwys unrhyw beth a ddarperir er lles iechyd a diogelwch;

- cofnodi pob damwain a digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd pan maent ar ddyletswydd swyddogol, boed yn un o swyddfeydd Estyn neu mewn

man arall, gan lenwi'r Llyfr Damweiniau/ffurflenni Cofnodi Digwyddiadau yn ôl yr angen a hysbysu rheolwyr llinell cyn gynted â phosibl am unrhyw beth a ddigwyddodd oddi ar y safle;

- nodi a thrafod unrhyw anghenion ar gyfer hyfforddiant neu gymorth ym maes iechyd a diogelwch gyda'r rheolwyr llinell a chymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant a nodwyd fydd yn eu cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau iechyd a diogelwch;

- trafod gyda'r rheolwr llinell unrhyw anghenion am offer diogelu personol sydd ei angen i gyflawni dyletswyddau, derbyn cyfrifoldeb am unrhyw offer diogelu personol a roddir iddynt, sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio a'i gynnal yn briodol a rhoi gwybod i'r rheolwyr llinell am unrhyw namau; a

- rhoi gwybod i Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles Estyn neu reolwr am unrhyw bryderon ynghylch iechyd a diogelwch.

Rheolwyr llinell

Mae rheolwyr llinell yn gweithredu dyletswydd gofal Estyn ac yn gweithredu'r polisi a'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch gyda'u timau drwy:

- gynnal asesiadau risg rheolaidd yn y meysydd gwaith y maent yn gyfrifol amdanynt, nodi ffyrdd o reoli'r rhain, a hysbysu'r uwch reolwyr yn rheolaidd, fel sy'n ofynnol gan Estyn;

- trafod gyda'r holl staff y maent yn eu rheoli y goblygiadau iechyd a diogelwch sydd ynghlwm â gweithio yn swyddfa Estyn, gartref neu oddi ar y safle a gweithio ar eich pen eich hun, a'r rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau i iechyd a diogelwch;

- sicrhau bod y Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles yn cael gwybod am bob damwain, afiechyd sy'n ymwneud â'r gwaith, digwyddiadau peryglus a digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, o fewn dau ddiwrnod gwaith ar ôl y digwyddiad neu mor fuan â phosibl wedi hynny;

- ystyried materion sy'n ymwneud â lles personol yn ogystal â thrafod materion sy'n peri pryder gyda staff unigol a chynnal neu drefnu asesiad risg unigol lle bo'n briodol;

- sicrhau bod eu staff yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer cael gafael ar gymorth lles cyfrinachol a gwasanaethau cwnsela;

- gweithio gyda'r Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles er mwyn sicrhau y ceir ymchwiliad yn ddiymdroi i bob damwain, digwyddiad peryglus a digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd. Bydd yr ymchwiliadau hyn yn cynnwys argymhellion ar gyfer rheoli risg cyn belled a bod hynny'n rhesymol ymarferol;

- ymgynghori â'r Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles mewn da bryd am unrhyw newidiadau arfaethedig yn Estyn o ran busnes, arferion gwaith, offer, deunyddiau ac ati a allai effeithio ar iechyd a diogelwch neu les y staff;
- sicrhau bod y staff yn eu timau yn derbyn hyfforddiant a chymorth priodol er mwyn iddynt fod yn ddigon ymwybodol o faterion iechyd, lles a diogelwch i allu gwneud eu gwaith;
- sicrhau bod unrhyw anghenion ar gyfer offer diogelu personol yn cael eu nodi a'u bodloni; a
- gosod esiampl bersonol o'r radd flaenaf o safonau iechyd a diogelwch.

Arolygwyr cofnodol

Mae gan arolygwyr cofnodol nifer o ddyletswyddau penodol o ran iechyd a diogelwch yn ystod arolygiadau. Nodir y rhain yn yr Asesiad Risg o Brosesau Arolygu.

Atebolrwydd am dorri dyletswydd statudol

Mae Estyn yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant a chymorth i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Fel arfer, ni fydd unigolyn yn gyfrifol am dorri'r gyfraith oni bai bod modd profi ei fod yn esgeulus mewn modd bwriadol neu fyrbwyll a bod hynny wedi achosi anaf, niwed neu golled ragweladwy. Yn yr amgylchiadau hyn, ni all Estyn ddigolledu gweithwyr am ddirwyon neu gosbau sy'n deillio o erlyniadau personol.

Gall gweithwyr sy'n esgeuluso neu dorri deddfwriaeth iechyd a diogelwch ac/neu bolisi neu weithdrefnau iechyd a diogelwch Estyn wynebu gweithdrefnau disgyblu Estyn. Os bydd secondiaid yn torri'r rheolau, byddant yn wynebu'r gweithdrefnau disgyblu a gytunwyd yn y cytundeb a wnaed gyda'u cyflogwyr.

Rheoli risgiau iechyd a diogelwch

Mae Estyn yn derbyn ei gyfrifoldeb dros amddiffyn gweithwyr ac eraill a effeithir gan y risgiau sy'n cael eu creu gan unrhyw ran o'n gweithgareddau gwaith. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gweithle diogel lle caiff risgiau eu hasesu a'u rheoli, lle darperir offer diogel a phriodol a lle mae'r staff yn derbyn digon o wybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol. Mae'r camau rheoli ar gyfer prosesau ac amgylcheddau penodol wedi'u nodi yn y ddogfennaeth asesu risg ac mae'r camau rheoli mwy cyffredinol e.e. hyfforddiant ac offer diogelu personol wedi'u hamlinellu isod.

Bydd y broses a'r ddogfennaeth ar gyfer asesu risg yn cael eu hadolygu'n flynyddol neu'n amlach yn ôl yr angen e.e. i asesu effaith unrhyw newidiadau arwyddocaol mewn deddfwriaeth, lleoliad, trefniadau a chyfrifoldebau, arferion gwaith neu dechnoleg, neu o ganlyniad i ymchwiliad i unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd.

Rheoli'r risgiau sy'n ymwneud â gweithleoedd

Mae unigolion cymwys yn cynnal asesiadau risg o swyddfeydd Estyn yn ôl yr angen gan ymgynghori â'r Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles. Darperir adroddiad sy'n nodi'r canfyddiadau pwysig a'r camau i'w cymryd i gael gwared, lleihau neu reoli'r risgiau, cyn belled â bod hynny'n rhesymol ymarferol, gan nodi hefyd pwy fydd yn gyfrifol am reoli'r risg.

Rheoli'r risgiau sy'n ymwneud â gwaith arolygu

Bydd yr arolygydd cofnodol a benodwyd ar gyfer pob arolygiad yn cynnal asesiad risg o'r gwaith sy'n benodol i'r gwaith arolygu. Bydd yn cynhyrchu adroddiad eithrio yn ôl yr angen a fydd yn cael ei gadw yn yr Ystafell Arolygu Rithwir (YAR) ar gyfer yr arolygiad hwnnw ac yn cael ei anfon at y Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles mewn neges e-bost. Bydd y Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles yn paratoi adroddiad cryno blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles, y Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Strategol yn amlinellu asesiadau risg eithrio o weithgarwch arolygu a gynhaliwyd, os oes rhai. Bydd Bwrdd Estyn yn gyfrifol am sicrhau y caiff unrhyw gamau eu cymryd, fel y bo'n briodol.

Rheoli'r risgiau sy'n ymwneud â gyrru fel rhan o'r gwaith

Mae polisi Estyn ar reoli'r risgiau sy'n ymwneud â gyrru fel rhan o'r gwaith wedi'i nodi mewn dogfen ar wahân o'r enw, 'Polisi ar yrru fel rhan o ddyletswyddau swyddogol'. Mae'r canllawiau sydd wedi'u hatodi gyda'r ddogfen honno yn cynnig awgrymiadau arfer dda yn ogystal â rhestr wirio i alluogi'r rheiny sy'n cael eu heffeithio gan y polisi i asesu a rheoli'r risgiau sy'n ymwneud â gyrru fel rhan o'r gwaith. Gall staff sy'n gyrru'n rheolaidd ar ddyletswyddau swyddogol ddilyn yr hyfforddiant gyrrwr gofalus gwirfoddol a ddarperir gan Estyn.

Rheoli'r risgiau sy'n ymwneud â gweithio ar eich pen eich hun

Mae'r trefniadau wedi'u nodi mewn polisi ar wahân ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun ac maent ar gael ar Sharepoint.

Rheoli'r risg o straen sy'n ymwneud â'r gwaith a hyrwyddo lles

Mae polisi ar wahân ar gyfer rheoli straen a lles gweithwyr ar gael ar Sharepoint.

Lleihau'r risg o anhwylderau cyhyrsgerbydol (MSD)

Mae anhwylderau cyhyrsgerbydol yn achos amlwg o salwch galwedigaethol y gellir ei atal. Mae'r rhain yn cynnwys problemau yng ngwaelod y cefn, anafiadau i'r cymalau, anhwylderau yn rhannau uchaf y corff sy'n ymwneud â'r gwaith ac anafiadau straen. Mae gweithgareddau fel codi a chario a defnyddio offer sgrin arddangos (OSA) yn aml neu dros gyfnod maith yn gallu achosi amrywiaeth o symptomau gan gynnwys anhwylderau cyhyrsgerbydol. Mae Estyn yn ceisio sicrhau bod y risgiau o anhwylderau cyhyrsgerbydol sy'n deillio o brosesau gwaith yn cael eu hasesu a'u rheoli'n effeithiol a bod arferion a safleoedd gwaith yn cael eu haddasu lle bo angen.

Mae ymchwil feddygol wedi tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng anhwylderau cyhyrsgerbydol a phroblemau iechyd meddwl. Mae Estyn yn ymwybodol o hyn ac am geisio:

- nodi risgiau posibl sy'n gysylltiedig ag anhwylderau cyhyrsgerbydol a phroblemau iechyd meddwl, a mynd i'r afael â materion mor gynnar â phosibl; a
- darparu lleoliad gwaith iach sy'n hyrwyddo lles personol ac sydd hefyd yn nodi ac yn lleihau'r risgiau o straen.

Lleihau'r risg sy'n ymwneud â gweithio gydag offer sgrin arddangos (OSA)

Mae Estyn wedi ymrwymo i reoli a lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio OSA yn y gwaith cyn belled â'i fod yn rhesymol ymarferol. Mae Estyn yn defnyddio offer hunanasesu ar-lein i asesu eu safle gwaith yn unol â Rheoliadau OSA (1992), yn cofnodi'r asesiadau ac yn adolygu ac yn eu hailadrodd os oes newid arwyddocaol o ran staff, arferion gwaith neu offer/technoleg. Mae staff Estyn yn cael arweiniad am arferion gorau o ran gosod a chynnal eu safleoedd gwaith. Maent yn cynnal hunanasesiadau o'u safleoedd gwaith y tu allan i swyddfeydd Estyn, yn eu cofnodi ac yn trafod y rhain gyda'u rheolwyr llinell. Mae'r Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles yn adolygu'r asesiadau ac yn cynnal pob cofnod.

Mae Estyn yn gweithredu cynllun llygad sy'n galluogi pawb sy'n defnyddio Offer Sgrin Arddangos i hawlio costau prawf llygaid bob 2 flynedd yn ogystal â chost sbectol sylfaenol VDU yn unig os yw ymarferydd yn eu rhagnodi ar eu cyfer.

Rheoli risgiau codi a chario

Bydd Estyn a'i staff yn sicrhau bod dim angen codi a chario lle bo modd, ond nid oes modd osgoi rhai tasgau codi a chario. Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant, cyfarwyddyd ac arweiniad fel rhan o'u hyfforddiant sefydlu cychwynnol er mwyn eu galluogi i asesu risg tasgau codi a chario yn ôl yr angen, ac fe ailadroddir y sesiynau hyfforddiant yn ôl yr angen. Bydd Estyn yn darparu offer addas i leihau'r angen i weithwyr orfod codi pethau.

Rheoli risgiau sylweddau peryglus

Yn unol â Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Peryglu Iechyd 2002, bydd Estyn yn rheoli'r amlygiad i sylweddau peryglus (fel arlliwiau argraffwyr, Tippex) i ddiogelu iechyd gweithwyr ac eraill a allai gael eu heffeithio. Caiff hyn ei wneud drwy asesu risg, storio priodol a chael gwared ar nwyddau yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr a thrwy fonitro sut mae contractwyr yn defnyddio ac yn cadw unrhyw sylweddau peryglus yn swyddfeydd Estyn. Disgwylir i'r staff ddefnyddio sylweddau fel arlliwiau argraffwyr yn gyfrifol ac at yr unig ddiben y cawsant eu darparu i Estyn.

Rheoli'r risgiau o weithio gydag offer trydanol

Bydd Estyn yn sicrhau y ceir cydymffurfiad llawn â Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989 a'r rheoliadau cysylltiedig sy'n ymwneud â diogelwch trydanol er mwyn atal peryglon rhag dod i'r amlwg yn sgîl defnyddio offer trydanol, lle bo hynny'n rhesymol ymarferol. Bydd yr holl offer trydanol yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd yn unol â rhaglen arfaethedig Estyn ar gyfer cynnal a chadw ataliol yn ogystal â thrwy gynnal profion PAT rheolaidd ar gyfer offer cludadwy. Bydd unrhyw offer diffygiol yn cael ei amnewid yn ddiymdroi.

Bydd staff yn derbyn cyfarwyddyd priodol ar sut i ddefnyddio offer trydanol cludadwy (fel gliniaduron) wrth eu derbyn ac fe'u hanogir i fwrw golwg ar yr offer cludadwy cyn ei ddefnyddio a rhoi gwybod i'r Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles neu aelod o'r tîm Gwasanaethau Swyddfa yn ddiymdroi am unrhyw namau. Mae pwysigrwydd diogelwch trydanol a chyfrifoldeb personol y staff dros ddiogelwch trydanol yn cael eu pwysleisio fel rhan o'r sesiynau iechyd a diogelwch arferol fel sesiynau sefydlu a sesiynau am godi a chario.

Camau rheoli: Offer Diogelu Personol

Bydd offer diogelu personol yn cael ei ddarparu i'r staff sydd angen offer o'r fath i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd rheolwyr llinell yn trafod ac yn cytuno ar y gofynion gyda staff unigol wrth iddynt ymgymryd â dyletswyddau lle mae angen offer diogelu yn ogystal â gwneud trefniadau priodol gyda'r Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles ar gyfer darparu'r offer. Bydd staff unigol yn gyfrifol am ddefnyddio unrhyw offer a ddarperir yn briodol ac am roi gwybod i'r rheolwr llinell a'r Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles yn ddiymdroi am unrhyw broblemau gyda'r offer. Mae'r Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles yn gyfrifol am sicrhau bod offer diogelu personol yn cael ei ddarparu a'i hamnewid yn ôl yr angen.

Camau rheoli: Hyfforddiant

Bydd Estyn yn sicrhau bod hyfforddiant a chymorth priodol ar gael i'r holl staff i ddatblygu a chynnal eu hymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau fel rhan o'u cyfnod sefydlu cychwynnol yn ogystal ag ail-gynnal hyfforddiant yn ôl yr angen e.e. pan fo dyletswyddau, cyfrifoldebau, prosesau gwaith ac offer yn newid. Disgwylir i weithwyr unigol fynychu unrhyw hyfforddiant iechyd a diogelwch a nodwyd, fel sy'n ofynnol yn unol â'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.

Mae rheolwyr llinell yn gyfrifol am asesu anghenion hyfforddiant ac am hysbysu'r Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles am unrhyw newidiadau mewn dyletswyddau a allai effeithio ar iechyd a diogelwch. Y Tîm Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol am sicrhau bod anghenion hyfforddiant a nodwyd yn cael eu bodloni yn y ffordd fwyaf priodol – boed drwy hyfforddiant ffurfiol, hyfforddiant, cyfarwyddiadau ac arweiniad wrth wneud y swydd, ac am gynnal cofnodion. Darperir hyfforddiant penodol i roi medrau, profiad a gwybodaeth benodol i weithwyr er mwyn eu galluogi i ddatblygu a chynnal eu cymhwyster i gyflawni dyletswyddau iechyd a diogelwch penodol. Bydd hyfforddiant ar gael hefyd ar gyfer aelodau o'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles a chynrychiolwyr staff Iechyd a Diogelwch, yn ôl yr angen.

Hyrwyddo iechyd gweithwyr

Hyrwyddo iechyd a lles

Yn ogystal â chyflawni ei ddyletswyddau statudol, mae Estyn wedi ymrwymo i hyrwyddo a chynorthwyo iechyd a lles pob gweithiwr gan ymgorffori prif egwyddorion y Safon Iechyd Corfforaethol yn ein ffyrdd o weithio ac i annog staff i gydio yn y materion hyn. Mae'r Polisi Iechyd a Lles, sydd ar gael ar SharePoint, yn nodi'r prif faterion sy'n ymwneud ag iechyd a sut rydym yn ceisio hyrwyddo 'diwylliant iach' a chynorthwyo staff gyda'u hiechyd a'u lles.

Mae Estyn yn darparu archwiliadau iechyd blynyddol a chyfrinachol i'w holl weithwyr yn ogystal â'r staff sydd wedi'u secondio i weithio i Estyn ar adeg cynnal yr archwiliadau blynyddol. Mae arbenigwyr iechyd galwedigaethol yn cynnal yr archwiliadau ac yn paratoi adroddiadau cyfrinachol sy'n cael eu rhannu gyda'r unigolyn unig (ac nid Estyn). Mae'r archwiliadau sylfaenol yn bwrw golwg ar daldra, pwysau, cynhwysedd yr ysgyfaint, glwcos gwaed a lefelau cholesterol a phwysau gwaed. Gellir darparu archwiliadau iechyd ychwanegol a phenodol os oes angen (e.e. osteoporosis).

Cymorth cyntaf

Bydd Estyn yn sicrhau ei fod yn parhau i fodloni anghenion Rheoliadau (Cymorth Cyntaf) Iechyd a Diogelwch 1981 (diwygiwyd 1997) a'r Cod Ymarfer Cymeradwy, yn ogystal ag unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol. Bydd hefyd yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau penodol ar waith a bod unigolion wedi'u cymhwyso i fodloni'r holl anghenion (gweler Atodiad 3 i gael manylion am y staff cymorth cyntaf cymwys).

Damweiniau a chofnodi

Dylai pob damwain (digwyddiadau sy'n achosi anaf, salwch neu niwed) a digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd (unrhyw ddigwyddiad na chynlluniwyd sydd â'r potensial i achosi anaf neu niwed) gael eu cofnodi yn Llyfr Damweiniau/Cofnod o Ddigwyddiadau Estyn. Mae'r Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles yn cadw'r Llyfr Cofnodi Damweiniau mewn ffeil gofrestredig ac mae'n cynnal cofnodion ac yn ystyried neu'n ymchwilio i bob adroddiad o ddamweiniau/ digwyddiadau. Mae templedi gwag o ffurflenni Cofnodi Digwyddiad yn cael eu cadw ar Sharepoint ac maent ar gael i'r holl staff. Os oes damwain neu ddigwyddiad oddi ar y safle, dylid paratoi adroddiad ar gyfer y sefydliad lle digwyddodd y ddamwain yn ogystal ag ar gyfer cofnodion Estyn. Mae'r Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles yn adolygu'r holl adroddiadau er mwyn nodi unrhyw gamau cywiro/rheoli sydd eu hangen ac i sylwi ar unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Mae'n cynnal ac yn cadw'r cofnodion (copi o'r ffurflen) am o leiaf 3 blynedd o ddyddiad y cofnod diwethaf a bydd yn rhoi detholiadau i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gais.

Cael anaf wrth wneud eich gwaith

Dylai'r staff roi gwybod i'r rheolwr llinell perthnasol yn ddiymdroi am unrhyw anaf a gafwyd wrth gyflawni dyletswyddau i Estyn. Bydd y rheolwr, drwy ymgynghori â'r Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles, yn cynnal ymchwiliad ar y ddamwain ac yn paratoi adroddiad amdano. Bydd hefyd yn asesu risgiau ac yn rhoi dulliau priodol ar reoli risgiau ar waith yn ôl yr angen. Os yw gweithiwr yn cael anaf o ganlyniad i ymosodiad, gall ef/hi wneud cwyn i'r heddlu a gallai ymchwiliad gan yr heddlu gael ei gynnal. Yn yr amgylchiadau hyn, ni fydd ymchwiliad mewnol gan Estyn yn cael ei gynnal hyd nes bod ymchwiliad yr heddlu wedi'i gwblhau. Bydd cymorth priodol yn cael ei gynnig i'r staff yn yr amgylchiadau hyn. Bydd absenoldeb yn sgil anaf a gafwyd wrth gyflawni dyletswyddau Estyn yn cael ei ystyried yn absenoldeb salwch at ddibenion cyfrifo lwfansau tâl salwch.

Cofnodi anafiadau, afiechydon a digwyddiadau peryglus (RIDDOR)

Bydd y Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles yn ymchwilio i, ac yn cadw cofnod ysgrifenedig o bob anaf, afiechyd a digwyddiad peryglus a gofnodir; bydd yn hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) o fewn 10 diwrnod drwy ddefnyddio'r ffurflenni HSE priodol ac yn gwneud galwadau ffôn cychwynnol fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau RIDDOR 1995.

Y Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles sydd fel arfer yn gyfrifol am gofnodi, ond os nad ydyw ar gael, gellir rhoi gwybod am unrhyw ddamweiniau RIDDOR ar-lein, mewn argyfwng, yn http://www.hse.gov.uk/riddor/index.htm

Gweithdrefnau mewn argyfwng: Tân a gwacáu

Rheolwr Diogelwch Tân Estyn sy'n gyfrifol am bob elfen o ddiogelwch tân. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod:

- larymau tân yn cael eu gwirio;
- diffoddwyr tân yn cael eu cynnal a'u gwirio'n rheolaidd; a
- bod ymarferion gwacáu yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Mae'r gweithdrefnau gwacáu mewn argyfwng yn cael eu harddangos yn amlwg yn y swyddfa yn Llys Angor. Mae gweithdrefnau tân manwl wedi'u nodi yn y gweithdrefnau Diogelwch a Gwacáu mewn Argyfwng yn Llys Angor, sydd ar gael i'r holl staff ar Sharepoint a chânt eu cyflwyno i'r holl staff newydd fel rhan o'u rhaglen sefydlu.

Ymgynghori â gweithwyr

Bydd Estyn yn ymgynghori â'r holl weithwyr ynglŷn â'r materion iechyd, diogelwch a lles sy'n effeithio arnynt. Bydd yr ymgynghori'n digwydd drwy'r undebau llafur ac yn uniongyrchol gyda'r staff. Ymgynghorir â chynrychiolwyr diogelwch etholedig yr undebau llafur drwy eu cyfranogiad yn y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles. Mae gan y cynrychiolwyr diogelwch hyn swyddogaethau o dan Reoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgor Diogelwch 1977.

Bydd Estyn yn trafod gyda'r undebau llafur er mwyn i'w cynrychiolwyr diogelwch gael cymorth priodol i'w galluogi nhw i wneud eu gwaith yn briodol. Gall hyn gynnwys ystyried ceisiadau am amser cyflogedig i ffwrdd o'r gwaith i fynd i gyfarfodydd pwyllgorau diogelwch ac i ddilyn cyrsiau hyfforddiant addas. Dylai ceisiadau am amser cyflogedig i ffwrdd o'r gwaith i ddilyn cyrsiau hyfforddi, a allai gael eu trefnu gan gymdeithasau staff neu Gyngres yr Undebau Llafur, gael eu cyflwyno gan gynrychiolwyr diogelwch drwy eu rheolwyr llinell a'r Cyfarwyddwr Strategol i'r Tîm Adnoddau Dynol.

Bydd Estyn hefyd yn ymgynghori'n ehangach â'r holl staff fel sy'n briodol yn unol â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Ymgynghori â Gweithwyr). Bydd yr ymgynghori hwn yn digwydd drwy gyflwyno dogfennau'n uniongyrchol i'r holl staff er mwyn iddynt gynnig sylwadau. Mae staff hefyd yn cael eu hannog i roi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch iechyd a diogelwch ac i gyflwyno cynigion am wella iechyd, lles a diogelwch yn Estyn i'w cynrychiolwyr diogelwch, y Swyddog Arweiniol: Iechyd, diogelwch a lles neu'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles.

Monitro ac adolygu

Mae gan reolwyr gyfrifoldebau pwysig ar gyfer monitro perfformiad iechyd a diogelwch bob dydd. Bydd y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn adolygu'r polisi hwn yn ffurfiol er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a'r gweithdrefnau sefydledig. Caiff hyn ei wneud o leiaf unwaith y flwyddyn ac yn amlach yn ôl yr angen, er enghraifft, i asesu effaith unrhyw newidiadau arwyddocaol mewn deddfwriaeth, eiddo, strwythurau a/neu gyfrifoldebau sefydliadol, arferion /gweithdrefnau gwaith neu dechnoleg yn sgil unrhyw ymchwiliad i ddamwain neu ddigwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd, neu yng ngoleuni unrhyw ganfyddiadau arwyddocaol mewn archwiliad.

Atodiad 1: Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch Estyn

Mae'r datganiad hwn yn nodi prif amcanion ac egwyddorion arweiniol Estyn o ran iechyd, diogelwch a lles gweithwyr.

A minnau'n bennaeth y sefydliad, rwyf wedi ymrwymo i wella safonau iechyd a diogelwch Estyn yn barhaus er mwyn diogelu iechyd, lles a diogelwch gweithwyr Estyn yn y gwaith yn ogystal â phawb arall sy'n gweithio ar ran Estyn ac eraill a allai fod yn gweithio yn swyddfeydd Estyn neu'n ymweld â hwy.

Byddaf yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau y bydd Estyn, fel sefydliad, yn:

- cydymffurfio â'r gyfraith ar iechyd a diogelwch;
- derbyn prif gyfrifoldeb y Bwrdd dros iechyd a diogelwch yn Estyn;
- diffinio cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn glir;
- pwysleisio cyfrifoldeb pwysig pob aelod o staff dros iechyd a diogelwch yn ogystal â chynorthwyo staff i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn;
- sicrhau bod iechyd a diogelwch wedi'u hymgorffori'n llawn ym mhrosesau rheoli a llunio penderfyniadau yn Estyn;
- adolygu trefniadau rheoli iechyd a diogelwch ledled y sefydliad, monitro perfformiad o ran iechyd, lles a diogelwch, a cheisio cyflwyno gwelliannau yn barhaus;
- dyrannu'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau iechyd, lles a diogelwch;
- darparu a chynnal safleoedd, offer a gweithdrefnau diogel;
- cynnal amodau gwaith diogel ac iach a sicrhau bod asesiadau addas a digonol yn cael eu cynnal o risgiau i iechyd a diogelwch ein holl staff ac eraill a bod camau rheoli priodol yn cael eu gweithredu i'w lleihau cyn belled â bod hynny'n rhesymol ymarferol;
- rhoi gwybodaeth gynhwysfawr a pherthnasol i weithwyr am risgiau yn y gwaith a'r camau diogelu ataliol sy'n rheoli'r risgiau hyn;
- sicrhau bod gwybodaeth, cyfarwyddiadau, cyngor a goruchwyliaeth briodol o ffynonellau cymwys ar gael ar gyfer y Bwrdd, y rheolwyr a'r gweithwyr er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu cyfrifoldebau;
- sicrhau bod yr holl weithwyr yn gymwys i wneud eu gwaith a rhoi hyfforddiant digonol ac/neu gymorth rheolwyr iddynt;
- atal damweiniau ac achosion o salwch sy'n ymwneud â'r gwaith cyn belled â bod hynny'n rhesymol ymarferol;
- ymgynghori â gweithwyr a'u cynrychiolwyr am faterion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gwaith;
- hyrwyddo iechyd a lles staff a neilltuo adnoddau digonol ar gyfer gweithgareddau hybu iechyd priodol;
- adolygu a diwygio'r polisi hwn yn ôl yr angen yn rheolaidd.

Llofnod: Ann Keane Dyddiad: 16 Hydref 2013

Ann Keane (Prif Arolygydd EM)

Dyddiad adolygu:____August 2016_____

Atodiad 2: Strwythur Rheoli Iechyd a Diogelwch Estyn



Allwedd:

Personel cysylltiedig

Llinell adrodd

Atodiad 3: Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch Estyn

Personél allweddol dynodedig:

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi	Ann Keane
Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch	Simon Brown
Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol)	Phil Sweeney
Prif Swyddog Polisi Corfforaethol ar gyfer Iechyd a Diogelwch (BSM)	Gina Carrington
Cynrychiolwyr Diogelwch yr Undebau Llafur	Bernard Hayward (FDA) Zoe Davies (PCS)

Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles:

Cadeirydd	Simon Brown
Prif Swyddog Polisi Corfforaethol ar gyfer Iechyd a Diogelwch (BSM)	Gina Carrington
Cynrychiolydd Diogelwch FDA	Bernard Hayward
Cynrychiolydd Diogelwch PCS	Zoe Davies
Rheolwr Adeiladau a Diogelwch Tân	Gina Carrington
Cynrychiolydd y Gyfarwyddiaeth Arolygu	Gerard Kerslake
Adnoddau Dynol	Beth Rees
Cynrychiolydd staff Gwasanaethau Corfforaethol	Dai Williams

Swyddogion Cymorth Cyntaf	Manylion cyswllt
Dean Andrews	Est. 6332
Zoe Davies	Est. 6316

Rheolwr Diogelwch Tân/ Dirprwy Reolwr Diogelwch Tân	Cyfrifoldeb swyddogaethol	Manylion cyswllt
Gina Carrington/ Phil Barry	Cysylltu'n uniongyrchol â'r gwasanaethau brys a'r wardeiniaid tân mewn argyfwng.	Est. 6317/6339

Wardeiniaid Tân	Dirprwy Wardeiniaid Tân (wrth gefn)
Ben Thomas	Gareth James
Shuna Lovering	Leigh Williams
Michaela Benjamin	Gemma Hutton

Ffurflen cytuno ar bolisi

Mae rheolwyr Estyn a'r undebau llafur yn cytuno ar y polisi hwn a'i weithdrefnau cysylltiedig

Llofnodwyd ar ran rheolwyr Estyn:
Simon Brown: Cyfarwyddwr Strategol
Dyddiad: Gorffennaf 2013

Llofnodwyd ar ran undebau llafur Estyn:	
Philip Barry **Ysgrifennydd Cangen** **Undeb y PCS** **29 Gorffennaf 2013**	**Huw Collins** **Cynullydd Adran yr FDA** **26 Gorffennaf 2013**